Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2019

Amser: 09.00 - 12.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5488

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Dawn Bowden AC Huw Irranca-Davies AC Mark Isherwood AC Caroline Jones AC Leanne Wood AC
Tystion:	Hannah Blythyn AC, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru Linda Davis, Llywodraeth Cymru Leighton Evans, Cyngor Sir Caerfyrddin Paula Livingstone, Cyngor Abertawe Sion Wynne, Cyngor Wrecsam Gaynor Toft, Cyngor Sir Ceredigion

	Lisa Hayward, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Dewi Morgan, Cyngor Gwynedd Deb Smith, Torfaen Council
Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Catherine Hunt (Ail Glerc) Jonathan Baxter (Ymchwilydd) Hannah Johnson (Ymchwilydd) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2 Ymchwiliad i Fudd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well - sesiwn dystiolaeth 6

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru
- Linda Davis, Pennaeth Trechu Tlodi a Chysylltiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 8 a 9

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

4 Ymchwiliad i Fudd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2 a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurder ar nifer o faterion.

5 Ymchwiliad i eiddo gwag – sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Leighton Evans, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Paula Livingstone, Cyngor Abertawe
- Sion Wynne, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gaynor Toft, Cyngor Sir Ceredigion

5.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y tystion i:

- Ddarparu data ar leoliadau eiddo gwag yn ardaloedd awdurdodau lleol ac a oes cysylltiad ag ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol; ac
- Ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am effeithiolrwydd y pwerau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin ag eiddo gwag.

6 Ymchwiliad i eiddo gwag – sesiwn dystiolaeth 2

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Lisa Haywood, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dewi Morgan, Cyngor Gwynedd
- Deb Smith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

7 Papurau i'w nodi

7.1 Gohebiaeth gan Mark Isherwood AC ynghylch y Gronfa Gymdeithasol ar gyfer taliadau angladd – 21 Mehefin 2019

7.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Mark Isherwood AC ynghylch y Gronfa Gymdeithasol ar gyfer taliadau angladd

7.2 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynghylch y cais am ragor o wybodaeth yn dilyn craffu blynyddol – 26 Mehefin 2019

7.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynghylch y cais am ragor o wybodaeth yn dilyn y craffu blynyddol.

7.3 Adroddiad ar eiddo gwag - dadansoddi o'r arolwg

7.3 Nododd y Pwyllgor y dadansoddiad o'r arolwg o eiddo gwag.

8 Ymchwiliad i eiddo gwag – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 5 a 6.

9 Dull gweithredu o ran gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd yng Nghymru

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull ar gyfer y gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd yng Nghymru.